# Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

**2011 mccc 1**

## RHAN 6

RHYDDID I DDEFNYDDIO'R GYMRAEG

### 114 Penderfynu ai i ymchwilio ai peidio

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os yw P yn gwneud cais i'r Comisiynydd o dan adran 111.

(2) Mater i'r Comisiynydd yw penderfynu ai i ymchwilio i'r ymyrraeth honedig ai peidio.

(3) Wrth benderfynu ai i ymchwilio i'r ymyrraeth honedig ai peidio—

(a) rhaid i'r Comisiynydd gymryd i ystyriaeth ym mha gyd-destun yr honnir bod yr ymyrraeth wedi digwydd (gan gynnwys y berthynas (os oes perthynas) sy'n bodoli rhwng D a P a rhwng D ac R, ond heb fod yn gyfyngedig i'r ddwy berthynas hyn);

(b) caiff y Comisiynydd ofyn i P, D, neu i unrhyw berson arall, am wybodaeth neu holi ei farn ynghylch yr ymyrraeth honedig; ac

(c) rhaid i'r Comisiynydd, os yw'n gofyn i P neu D am wybodaeth neu'n holi ei farn, roi i P neu D yr wybodaeth berthnasol am ymchwiliadau.

(4) Nid yw is-adran (3) yn cyfyngu ar y materion y caiff y Comisiynydd eu hystyried wrth benderfynu ai i ymchwilio i'r ymyrraeth honedig ai peidio.

(5) Os yw'r Comisiynydd yn penderfynu ymchwilio i'r ymyrraeth honedig, rhaid iddo—

(a) hysbysu P a D o'r penderfyniad, a

(b) rhoi i P a D yr wybodaeth berthnasol am ymchwiliadau (i'r graddau nad yw'r Comisiynydd eisoes wedi rhoi'r wybodaeth o dan is-adran (3)(c)).

(6) Os yw'r Comisiynydd yn penderfynu peidio ag ymchwilio i'r ymyrraeth honedig, rhaid i'r Comisiynydd hysbysu P—

(a) o'r penderfyniad, a

(b) o'r rhesymau dros ddod i'r penderfyniad.

**Statws** *This is the original version (as it was originally enacted).*

(7) Rhaid i'r Comisiynydd gydymffurfio ag is-adran (5) neu (6) cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl dod i'r penderfyniad o dan sylw.

(8) Yn yr adran hon ystyr "gwybodaeth berthnasol am ymchwiliadau" yw gwybodaeth am—

(a) y weithdrefn ar gyfer cynnal ymchwiliadau o dan y Rhan hon, a

(b) pwerau'r Comisiynydd mewn perthynas â'r ymchwiliadau hynny (gan gynnwys y pŵer o dan adran 118 i lunio a chyhoeddi adroddiadau a dogfennau eraill, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny).